

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

300 - Beirniadaeth Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.10 a dan 19 oed

Beirniad: Patric Stephens

Daeth 14 o ddarnau amrywiol i law, bob un a'i rinweddau gan ddangos creadigwrwydd cerddorol. Derbyniwyd naw darn ar gyfer ensemblau (offerynnau chwyth yn bennaf), un darn cerddorfaol, a phedwar ar gyfer unawd a chyfeiliant piano neu delyn. Defnyddiodd bob un gyfrifiadur i gofnodi neu recordio'r gerddoriaeth gan ryddhau'r cyfansoddwyr i arbrofi gydag offerynnau amrywiol. Gofalwch bo' chi'n ymwybodol o gyfyngderau pob offeryn; roedd sawl engraifft o nodau a oedd y tu hwnt i ystod nodau'r offeryn.

Ar y cyfan, defnyddiwyd harmoni diatonig gyda rhai yn cadw at gordiau syml ac eraill yn fwy mentrus gyda nodau cromatig, trawsgyweiriadau a chordiau annisgwyl. Roedd y deunydd thematig yn amrywio gyda rhai yn dibynnu ar ail adrodd pytau bach o alaw ac eraill ag alawon mwy estynedig gan lifo a datblygu i gyfeiriadau penodol.

O'r 14 ymgais, daeth yr isod i'r brig: mae YR WYDDFA yn ddarn mawreddog ar gyfer offerynnau pres. Mae'r arddull yn ffanfferol gyda chyfres o syniadau byrion yn cael eu taflu o un offeryn i'r llall. Mae'r harmoni yn cynnwys sawl anghytsain diddorol a chord annisgwyl.

Cyfansoddodd CALEIDOSGÔP ddarn lleiafsymiol sy'n dechrau trwy ail adrodd pedal, gyda haenau o offerynnau yn ymddangos gydag arpeggio, pytau o alaw a chordiau amrywiol. Mae'r holl elfennau dan reolaeth gan greu cyfanwaith effeithiol iawn.

Pedwarawd chwythbren bywiog mewn amseriad cyfansawdd sy' gan TAITH Y GWANWYN. Mae'r arddull yn chwareus, yr harmoni yn aeddfed a'r ymdriniaeth o'r deunydd thematig yn gelfydd. Mae'r adran argraffiadol sy'n darlunio sain adar yn gampus. Dyma gyfansoddwr medrus.

1af - Lucas Palenek

2il - Caleb Griffiths

3ydd - Samuel Paice